Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 24 Tachwedd 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. James Bryan, June Derry, Sioned Foulkes, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen-Ellis, Katy Morgan Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne.

122. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Bob Costian, Elisabeth Culshaw, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley ac Anne Roberts; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

123. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

124. YR HEDDLU

Cynrychiolwyd Yr Heddlu gan Arolygydd Gareth Jones a PCSO Mandy McLaughlin. Cafodd Yr Arolygydd Gareth Jones ei apwyntio yn ddiweddar i ofalu am Ardal Wledig Conwy a Dinbych. Dywedodd bod Rhuthun yn dawel ar hyn o bryd o safbwynt plismona. Cyffuriau - yn ymwybodol o hyn ac yn adrodd yn ôl i Mandy. Dywedodd bod ymgyrch gyffuriau wedi ei gario allan yn ddiweddar o gwmpas tafarndai'r dref. Y brif broblem yw gyrru gwrthgymdeithasol ar hyd Heol y Parc ac o fewn Maes Parcio Heol y Parc. Mae CCTV wedi gwella'r sefyllfa ac mae fwy o batrolau wedi bod o gwmpas y dref. Derbyniodd gwestiynau oddi wrth yr aelodau parthed parcio ar balmentydd (fe wnaiff siarad gyda'r PCSO lleol), cŵn i ffwrdd o'i tennyn, ymgyrch gyffuriau ac ystadegau troseddau (dim ar gael ar hyn o bryd). Diolchwyd iddynt gan y Maer.

125. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

22 Hyd	Hyfforddiant i Lywodraethwyr yn Neuadd y Sir
23 Hyd	Gwobrwyon Comisiynydd Yr Heddlu a Throseddau yn Kinmel Manor
23 Hyd	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Nghei Conna
25 Hyd	Marchnad Nos Calan Gaeaf
30 Hyd	Cyflwyno Cwpanau Arddangosfa Flodeuol
31 Hyd	Awyr Ambiwlans yn Neuadd y Farchnad
6 Tach	Cyfarfod Cyllid yn Neuadd y Sir
7 Tach	Cyfarfod Blynyddol Cyswllt Oed, Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Efeillio Rhuthun
8 Tach	Arddangosfa Tan Gwyllt yn Llanfwrog
11 Tach	Cyfarfod yn Llys Erw
14 Tach	Comisiynydd Pobl Hyn yn Llangollen
14 Tach	Dawns y Maer
15 Tach	Bore Coffi Sioe Flodau yn Awelon
18 Tach	Cyfarfod gyda'r cydlynydd yn Neuadd y Dref
19 Tach	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru - Is-bwyllgor Bwrdd iechyd yng Nghei Conna.
20 Tach	Cyfarfod gyda Golygydd y Free Press parthed Sul Coffa
21 Tach	Noson wreslo elusennol yn Ysgol Brynhyfryd, cyfarfod Gwasanaethau Gwirfoddol yn Neuadd y Dref Dinbych, Cyfarfod yn Neuadd y Dref Dinbych parthed Arwyddion Brown
23 Tach	Cystadleuaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Ysgol Brynhyfryd.

126. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Dawns y Maer, Gŵyl Rhuthun x 2
Cyng. June Derry	Dawns y Maer, Ffair Nadolig Sioe Rhuthun, Sul Coffa

Cyng. Sioned Foulkes	Sul Coffa
Cyng. Menna Jones	Sul Coffa, Corff Llywodraethol Ysgol Borthyn, Banc Bwyd, Dawns y Maer
Cyng. Simeon Jones	Sul Coffa, Gŵyl Rhuthun, Dawns y Maer
Cyng. Robert Owen-Ellis	Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras, Sul Coffa, Dawns y Maer, Cyfarfod Cydlynydd, Banc Bwyd x 5
Cyng. Anne Roberts	Ymlaen Rhuthun x 2, Gwobrwyon Comisiynydd Yr Heddlu Gwesty Kinmel Manor, Cyflwyno cwpanau, Banc Bwyd yn Awelon, Cyswllt Oed yn Abergele, Sul Coffa, Fforwm Dros 50 yn Llys Erw, Cyfarfod gyda Chomisiynydd Pobl Hyn yn Llangollen, Dawns y Maer, Pwyllgor Iechyd Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Nghei Conna, Cyfarfod gyda Rebecca Cole, Denbighshire Free Press, Cyfarfod gyda chyflenwr Coed Nadolig.
Cyng. Katy Morgan Williams	Sul Coffa
Cyng. Geraint Woolford	Cyfarfod Blynyddol ac Anghyffredin Tîm y Dref, Arddangosfa Tan Gwyllt, Sul Coffa
Cyng. Emrys Wynne	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, Dawns y Maer, Sul Coffa

127. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2014.*

128. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

129. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

130. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

131. IS-BWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor yma (Aelodaeth - Cyngr. Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry, Katy Morgan Williams, Y Maer a'r Dirprwy Faer).
***PENDERFYNWYD**: bod y cyfarfod i'w gynnal yn dilyn y Pwyllgor Amwynderau ar nos Fawrth, 2 Rhagfyr 2014.*

132. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL CYLCH MEITHRIN RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynrychiolaeth Cyngor Tref ar y Mudiad uchod.
***PENDERFYNWYD**: gofyn am gais ffurfiol gan y Mudiad uchod.*

133. TIM Y DREF

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad oddi wrth Cyng. Geraint Woolford.

134. CYMDEITHAS CYNGHORAU GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth o'r Gymdeithas uchod ar gost o £50.00
***PENDERFYNWYD**: adnewyddu aelodaeth o'r Gymdeithas uchod ar gost o £50.00.*

135. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Hydref2014

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

136. CYFRIFON I'W TALU

D.U.	B.T.	Gwasanaeth broadband	*	65.76
647	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
648	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		163.20
649	I.T.Williams Company Ltd	Hurio lori a gyrrwr i lwytho a chludo blodau	*	420.00
650	Fineline Printing & Stationery Ltd	500 A4 slip cyfarchion	*	105.11
651	Fineline Printing & Stationery Ltd	500 A4 pennawd llythyr	*	129.00
652	Cyng. Anne Roberts	Costau teithio		30.60
653	Lleng Brydeinig Frenhinol	Cyfraniad		50.00
654	Dafydd Williams	Sul Coffa – te / coffi / bisgedi		15.91
655	Rick Parr	System sain ar gyfer Sul Coffa		80.00
656	Cymdeithas Band Press Gogledd Cymru	Cyfraniad tuag at hurio neuadd		300.00
657	Dafydd Williams	Cyflog / costau		167.16
658	Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru	Tanysgrifiad blynyddol		50.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £134.98)

RHAN DAU

137. CYFLOG CLERC Y DREF

Derbyniodd yr aelodau fanylion am gyflog Clerc y Dref

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chadarnhau'r manylion.*

138. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun,15 Rhagfyr 2014*